

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 31^{AIN} GORFFENNAF 2019 YNG NGHANOLFAN BRO CERNYW

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

- 1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)
- 1.2** Presennol: Ann Vaughan (AV) a R. Emlyn Williams (REW)
- 1.3** Ymddiheuriadau: Elen H. Edwards (EHE), Diane Roberts (DR), Gwynfor Davies (GD), Garffild Lloyd Lewis (GLL), Gwyn Williams (GW) ac Einir Williams (EW)
- 1.4** Absennol: Gwydion Jones (GJ)

2 DATGAN DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 26^{AIN} MEHEFIN 2019

REW yn cynnig ac AV yn eilio eu bod yn gywir.

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION 3) UCHOD

CR yn adrodd fod Dyfrig yn methu gwneud y gwaith pwmp dŵr – wedi gofyn i Kevin.

CR hefyd yn adrodd fod EHE yn derbyn i fod yn is-gadeirydd.

5 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD

- 5.1** Toiledau Llangernyw – AV yn nodi fod dim pellach i'w drafod yn dilyn y cyfarfod diwethaf.
- 5.2** Mainc solar – EW wedi gyrru ebost i CR yn dilyn gweld Meira Woosnam yn ddiweddar, y ddwy fainc arall a gafodd eu gosod gan y Cyngor Sir yn perfformio'n dda ond un Llangernyw ddim yn cael digon o oleuni i weithio'n iawn. Meira Woosnam wedi sôn wrth AV y buasai'r Ardd Goffa, o bosibl, yn leoliad gwell. CR yn codi pryder fod cysgod yn yr Ardd Goffa hefyd. CR wedi bod yn edrych ar leoliad arall posibl cyn y cyfarfod sef gyferbyn ac Amgueddfa Syr Henry Jones. Conwy yn mynd i ofalu am y gôst o symud y fainc. Gofyn am help Meira Woosnam i benderfynu ar safle newydd i gael lleoliad gorau ar gyfer goleuni, bosib bod ganddi fesurydd golau. CR i ofyn i EW gysylltu â Meira Woosnam i fynd ymlaen efo hyn.

6 CEISIADAU CYNLLUNIO

- 6.1** 0/46423 – ail gais gerbron. Wedi cefnogi o'r blaen. Dim sylwadau.
- 6.2** 0/46424 – fel 6.1 uchod, dim sylwadau.
- 6.3** 0/46459 – cefnogi, dim sylwadau.

7 MATERION CYNGOR

- 7.1** Diwigio a cyfieuthu, trefnu cyfarfod bach i drafod yn fanwl. CR i ebostio'r Cyngorwyr i gyd yn gofyn am 4 aelod o'r Cyngor wirfoddoli i ddod at eu gilydd o flaen pwyllgor mis Medi. Eitem i roi ar agenda mis Medi i drafod ymhellach.
- 7.2** Un cais wedi dod i law, CR yn darllen y llythyr cais i'r pwyllgor. AV yn cynnig derbyn ac REW yn eilio. Enw'r person i'w gofnodi pan y byddant yn mynychu'r cyfarfod nesaf. AV yn cynnig fod y cynghorydd newydd yn mynychu cwrs Un Llais ar gyfer cyngorwyr newydd pan fydd dyddiad addas i fynychu. REW a CR yn cefnogi.
- 7.3** AV yn adrodd fod y dyddiad cau ddiwedd Hydref, os nad oes cais arbennig yn dod i law yn ystod y flwyddyn. Soniodd CR fod canllawiau cais am arian angen eu diwigio a fod angen i bwyllgor bach gael ei drefnu i wneud hyn. Amser yn brin cyn Hydref bellach, penderfynwyd gohurio trefnu pwyllgor i drafod hyn tan ddechrau 2020.

8 MATERION ARIANNOL

- 8.1** Anfoneb £507.60 gan Swyddfa Archwilio Cymru. EHE wedi gofyn am fanylion manwl yr anfoneb – CR am gysylltu â EHE i holi os oedd hi wedi clywed ymhellach. Penderfynwyd beidio talu tan oedd y manylion wedi dod i law.
- 8.2** Eitem ychwanegol – GD wedi cysylltu â CR cyn y cyfarfod i adrodd fod problem wedi bod yn y banc ynglyn a newid enw Cronfa Bro Cernyw, mae'n debyg fod y banc wedi newid enw'r ddau gyfrif mewn camgymeriad. GD yn delio ac i adrodd 'nôl i'r Cyngor fis nesaf.

9 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR

Dim adroddiad i law.

10 BILIAU

- 10.1** Arfon Parry, gwaith gwefan £150, cytunwyd i dalu.
- 10.2** Swyddfa Archwilio Cymru – trafodwyd 8.1 uchod.
- 10.3** Cyflog Enlli: £73.95. Cytunwyd i dalu.
- 10.4** Cyfieuthu Cymunedol Llanrwst – gwaith cyfieuthu Mawrth ac Awst 2018. Gwaith yn siomedig iawn. CR am ofyn i EW i ddelio â hwn.
- 10.5** CVSC: anfoneb heb ddod i law. Trafodwyd yn y pwyllgor diwethaf (26/6/19 – pwynt 10.6). CR i ofyn i EW ddelio. Os yw yn £15 fel o'r blaen, cytunwyd i dalu.
- 10.6** Dei Evans: £400 torri mynwentydd, cytunwyd i dalu.

11 MATERION LLEOL

AV: wedi cysylltu efo'r Cyngor Sir, wedi gofyn eu bod yn brwsio'r ffyrdd, torri glaswellt a wedi glanhau'r arwyddion ffyrdd a torri o'u hamgylch. Conwy wedi dweud y buasai nad oedd modd eu glanhau yn cael eu newid. AV hefyd wedi bod mewn cyfarfod diweddar oedd yn codi ymwybyddiaeth ynglyn a scam ar y ffôn ac ebost a bod angen i bawb fod yn wiliadwrus. Wedi cael rhifau cyswllt ar gyfer CAB, Action Fraud, Safonau Masnach â'r Heddlu. Manylion i'w pasio ymlaen at Arfon Parry i roi ar wefan Bro Cernyw, hefyd i'w rhoi o dan Llangernyw, Pandy Tudur a Gwytherin yn y Gadlas i godi ymwybyddiaeth – AV i ddelio.

AV wedi prynu *buntings* a fflagiau ayyb i addurno'r pentref cyn yr Eisteddfod Genedlaethol wythnos nesaf. Gobeithio defnyddio arian o'r grant i dacluso'r pentref a gafwyd yn ddiweddar, ond gofyn os oedd modd cael cyfraniad o'r grant hwnw, oedd y Cyngor Cymuned yn fodlon cyfranu os nad yw'r cais am arian yn llwyddianus. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf, os bydd angen.

12 CYFARFOD NESAF

25^{ain} Medi 2019

Cyfarfod yn dod i ben 8:30yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan